

RHYBUDD O GYFARFOD / NOTICE OF MEETING



Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri

*Emyr Williams
Prif Weithredwr
Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri
Penrhyndeudraeth
Gwynedd LL48 6LF
Ffôn/Phone (01766) 770274
E.bost/E.mail : parc@eryri.llyw.cymru*

Snowdonia National Park Authority

*Emyr Williams
Chief Executive
Snowdonia National Park Authority
Penrhyndeudraeth
Gwynedd LL48 6LF
Ffacs/Fax (01766)771211
Gwefan/Website: www.eryri.llyw.cymru*

Cyfarfod:	Pwyllgor Safonau
------------------	-------------------------

Dyddiad:	<i>Dydd Gwener 3 Medi 2021</i>
-----------------	--------------------------------

Amser:	<i>10.00 y.b.</i>
---------------	-------------------

Anfonir cyfarwyddiadau ymuno at yr Aelodau ar wahân

Meeting:	Standards Committee
-----------------	----------------------------

Date:	<i>Friday 3 September 2021</i>
--------------	--------------------------------

Time:	<i>10.00 a.m.</i>
--------------	-------------------

Joining instructions will be sent to Members separately

Y Cynghorwyr /Councillors :
Alwyn Gruffydd, Philip Capper;

Mrs Sarah Hattle.

Aelodau Annibynnol / Independent Members
*Mrs. Rachael Leah Jane Davies, Mr. Martin James Hughes,
Mrs. Sharon Warnes.*

R H A G L E N

1. **Cadeirydd**
Ethol Cadeirydd ar gyfer y Pwyllgor.
2. **Is-gadeirydd**
Ethol Is-gadeirydd ar gyfer y Pwyllgor.
3. **Ymddiheuriadau am absenoldeb a Datganiadau'r Cadeirydd**
4. **Datgan Diddordeb**
Derbyn unrhyw ddatganiad o ddiddordeb gan aelod neu swyddog mewn perthynas ag unrhyw eitem fushes.
5. **Atodlen 12A Deddf Llywodraeth Leol 1972 : Eithrio rhag datgelu dogfennau Gwrandawriad Apêl**
Cyflwyno adroddiad gan y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol. (Copi yma)

RHAN II

6. **Gwrandawriad Apêl**
Cyflwyno adroddiad gan y Pennaeth Personél. (Copi yma)

EITEM RHIF 5

CYFARFOD	Pwyllgor Safonau
DYDDIAD	03 Medi 2021
TEITL	ATODLEN 12A DEDDF LLYWODRAETH LEOL 1972 EITHRIO RHAG DATGELU DOGFENNAU GWRANDAWIAD APÊL
ADRODDIAD GAN	Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol
PWRPAS	Gofyn i'r Pwyllgor Safonau gymeradwyo eithrio'r adroddiad hwn.

1.0 CEFNDIR

1.1 Rwyf wedi rhoi ystyriaeth i'r rhesymau dros eithrio'r wybodaeth a gynhwysir yn yr adroddiad y cyfeirir ato uchod, a chyflwynaf yr argymhellion a ganlyn i'r Swyddog Priodol.

1.2 Eithriadau sy'n berthnasol i'r adroddiad:

- 12. – Gwybodaeth sy'n ymwneud ag unigolyn penodol
- 13. - Gwybodaeth sy'n debygol o ddatgelu pwy yw'r unigolyn

1.3 **Ffactorau o blaid datgelu:** Tryloywder y broses o wneud penderfyniadau

1.4 Rhagfarn a fyddai'n codi petai'r wybodaeth yn cael ei datgelu:

- i. Ni waeth sut mae'r adroddiad yn cael ei eirio, byddai enw'r unigolyn dan sylw'n cael ei ganfod.

1.5 Mae fy marn i ar brawf lles y cyhoedd fel a ganlyn:

- i. Bydd lles y cyhoedd yn cael ei sicrhau orau os yw'r Pwyllgor Safonau yn cadw'r wybodaeth er mwyn sicrhau bod budd personol yr unigolyn dan sylw yn cael ei ddiogelu.

2.0 ARGYMHELLIAD

2.1 Penderfyniad a argymhellir o ran datgelu'r wybodaeth

- i. Bod y Pwyllgor Safonau yn cytuno i eithrio rhag datgelu'r adroddiad 'Gwrandawriad Apêl'.